Awgrymiadau Aseswyr

- Byddwch yn glir am y newid neu'r gwelliant rydych chi'n gobeithio cyflawni trwy'r prosiect a phroffil y dysgwyr, staff a cyd-destun y newid hwn. Os yn bosib, gofynnwch i rywun nad yw'n gysylltiedig â'r prosiect i wirio'r cysyniad cyffredinol. Efallai nad ydy'r hyn sydd yn glir i chi yn glir i eraill!
- Cyfeiriwch at dystiolaeth neu ymchwil sy'n ymwneud â syniad eich prosiect, sy'n egluro ei bwysigrwydd neu'n eich arwain i gredu gall prosiect eich helpu i fynd i'r afael ag ef yn well. Gallai'r dystiolaeth/ymchwil fod o adroddiadau mewnol neu ganfyddiadau gan eich sefydliad, neu o'r sector yn ehangach.
- Gwnewch gysylltiadau cryf a phenodol i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer eich sector lle mae'n bosibl ac eglurwch sut bydd y prosiect yn cyfrannu at y rhain yn ogystal â strategaeth rhaglen Taith.
- Dangoswch pam mae'r prosiect yn berthnasol drwy ddarparu dadansoddiad anghenion ymarferol, sy'n dangos beth yw'r problemau ac yn adnabod achosion ac atebion; Gallwch ystyried anghenion unigol, sefydliadol neu sectoraidd.
- Amlinellwch sut mae'r newidiadau a'r dysgu yn cysylltu â strategaeth, cenhadaeth neu ffocws ehangach eich sefydliad.
- Ystyriwch beth yw'r budd o weithio ar y broblem gyda phartneriaid rhyngwladol a thrwy gyfnewid rhyngwladol, yn hytrach nag yn lleol neu'n genedlaethol. Pa werth ychwanegol a ddaw drwy'r persbectif neu'r profiad rhyngwladol?
- Amlinellwch brofiad, arbenigedd a phroffil y partner rhyngwladol yn glir mewn cysylltiad â'r broblem, yn ogystal â'r wlad gyrchfan h.y. eglurwch yr ystod o werth ychwanegol y byddant yn dod ag ef i'r prosiect, yn ogystal â'u staff, arbenigedd a phrofiad blaenorol perthnasol.
- Ystyriwch sut gallwch wneud y gorau o'r amser a'r cyfnewid rhyngwladol. Ydy'r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio yn debygol o arwain at y newid a'r dysgu rydych yn gobeithio eu hennill? Beth allwch ei wneud, ei weld neu ei brofi'n bersonol a fyddai'n anodd ei ddeall pe bai ar-lein yn unig? Pa strwythurau y gallwch eu rhoi ar waith cyn, yn ystod neu ar ôl y symudedd i arwain dysgu, sefydlu ymddiriedaeth, annog cyfathrebu a chefnogi adfyfyrio? Sut y gall pellter neu ddysgu ar-lein ategu'r cyfnewid wyneb yn wyneb?
- Sut byddwch yn rheoli'r prosiect? - Oes gennych chi'r holl brofiad/adnoddau ofynnol yn fewnol? Os oes, esboniwch pwy fydd yn gwneud beth a sut. Os nac oes, esboniwch sut byddwch chi'n dod o hyd iddynt a gyda phwy fyddwch chi'n gweithio. Nid oes rhaid i'r holl arbenigedd fod ar gael yn fewnol er mwyn sicrhau prosiect o ansawdd. Ystyriwch

beth yn ychwanegol sydd ei angen arnoch er mwyn gwneud y prosiect yn llwyddiant - arbenigwyr allanol perthnasol, cyfieithwyr, digidol/cyfathrebu ac ati.

- Lle nad ydych wedi cadarnhau manylion y gweithgareddau penodol neu ffactorau eraill sy'n berthnasol i weithredu'r prosiect, gallech ystyried defnyddio enghreifftiau ymarferol i ddangos eich prosesau a'ch cynlluniau a sut rydych yn rhagweld y bydd y partneriaeth(au) yn gweithio.
- Esboniwch sut byddwch yn monitro a gwerthuso'r gweithgareddau trwy gydol y prosiect.
- Darparwch amlinelliad clir o amseriad y gweithgareddau a gynlluniwyd. Gwnewch yn siwr eich bod yn realistig ynghylch amserlenni a chaniatáu digon o amser ar gyfer cwblhau'r prosiect.
- Rhowch enghreifftiau penodol o anghenion eich dysgwyr a'ch staff o ran cynhwysiant. Dylech rhoi enghreifftiau penodol o sut bydd y prosiect ym mynd i'r afael â'r anghenion hyn, yn hytrach na darpariaethau cyffredinol ar draws eich sefydliad.
- Defnyddiwch symudedd mewnol yn strategol a byddwch yn glir ynghylch a'r hyn bydd cyfnewidfeydd mewnol yn ychwanegu at nod cyffredinol y prosiect.
- Peidiwch â chanolbwyntio'n unig ar y cyfnewidfeydd rhyngwladol. Er bod symudedd yn rhan allweddol nid yw manteision symudedd i gyfranogwyr unigol yn ffocws prosiectau Llwybr 2. Yn hytrach, mae symudiadau'n hwyluso datblygu a chwblhau allbwn y prosiect.
- Esboniwch sut bydd allbwn/allbynnau eich prosiect yn parhau i gael eu defnyddio gan y cynulleidfaoedd/rhanddeiliaid targed perthnasol ar ôl i'r prosiect ei gwblhau.

Rhesymau dros brosiectau aflwyddiannus yn Llwybr 2 2022:

- Roedd rhai ceisiadau yn canolbwyntio ar weithgareddau Llwybr 1. Y tebygrwydd yw nad oedd y sefydliadau hyn wedi ystyried yn glir y gwahaniaethau rhwng y llwybrau.
- Roedd yn ymddangos bod rhai ceisiadau yn edrych i lenwi bwlch a adawyd gan Erasmus+ ac ni chafodd y cais ei deilwra i nodau penodol Taith
- Diffyg amcanion clir, allbynnau a/neu gynulleidfaoedd targed.
- Diffyg eglurder o'r effaith ehangach yng Nghymru. Roedd hyn yn aml oherwydd diffyg manylder ynghylch y lledaenu ac nid oedd cynllun clir o hyn wedi ei wneud yn ddigon eang. Mewn rhai achosion y ffocws oedd ar y budd i'r sefydliad unigol gyda dim ond ychydig o hyrwyddo allanol.
- Diffyg cyfiawnhad, neu ymchwil i'r bwlch a nodwyd a rhesymu dros yr elfen ryngwladol i lenwi'r bwlch hwn.

- Mewn rhai achosion, roedd y budd i'r partner rhyngwladol yn glir ond yn llai i’r sefydliad Cymreig neu i'r sector yng Nghymru. Mae angen i brosiectau Llwybr 2 fod o fudd i sefydliadau yng Nghymru.
- Diffyg gwerth am arian fel y costau heb eu cyfiawnhau, a / neu gostau yn anghymesur â maint y prosiect.
- Costau anghymwys – gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio bod yr holl gostau yn gymwys cyn cyflwyno eich cais.
- Ble mae sefydliadau'n cysylltu â'u canghennau eu hunain mewn gwledydd eraill, mae angen dangos yn glir pam mae hyn y tu allan i'w busnes fel arfer, gan gynnwys tystiolaeth nad yw costau'n graidd/busnes fel arfer.